

RHYBUDD I FORWYR LLEOL

06-07-2020

Rheoli COVID-19

Mae'r Hysbysiad Lleol i Forwyr hwn yn disodli Hysbysiadau i Forwyr blaenorol a gyhoeddwyd yn benodol mewn perthynas â rheoli COVID-19 o fewn awdurdodaeth yr harbyrau yn Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Pwllheli.

Yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Cymru) 2020, fel y diwygiwyd mae Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Harbwr Cymwys ar gyfer harbwr Porthmadog, a'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer harbyrau Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi trwy hyn yn cyflwyno rhybudd pellach bod cyfyngiadau o ran symud cychod, gweithgareddau a chyfleusterau'r lan yn cael eu diwygio fel a ganlyn: -

- 1. Caniateir i berchennog cychod pleser a / neu aelodau criw gael mynediad digyfyngiad i'r harbwr neu'r cyfleuster marina at ddibenion ymweld, cynnal a chadw, archwilio neu hwylio eu cwch.*
- 2. Mae'n ofynnol i berchnogion cychod neu eu criw / gwsteion sy'n bwriadu preswyllo ar fwrdd cwch dros nos neu am unrhyw ran o'r oriau tywyllwch sicrhau bod pawb sydd ar fwrdd y llong yn cydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phreswyllo mewn llety dros dro.*
- 3. Awdurdodir darparwyr gwasanaeth Parcio a Lansio Lleol i lansio cychod ar ran eu cleientiaid ar yr amod bod gweithredwr y gwasanaeth Parcio a Lansio yn sicrhau cydymffurfiaid â gofynion cofrestru cychod y Cyngor.*
- 4. Caniateir cychod ysgraff sydd wedi'u hawdurdodi ac eu trwyddedu i gludo teithwyr yn rhinwedd Deddf Diwygiadau Deddfau Iechyd y Cyhoedd a ble bod â Thrwydded Perchennog dilys mewn grym a ble mae'r llywiwr yn dal Trwydded Cychwr dilys yn cael ei awdurdodi i weithredu yn yr harbwr yn unol â thelerau'r Drwydded.*
- 5. Caniateir i longau masnachol fel Llongau Pysgota cofrestredig a Llongau Pysgota Genwair cofrestredig a thrwyddedig weithredu yn unol â thelerau'r Drwydded.*
- 6. Caniateir lansio neu adfer unrhyw cwch pleser a'i hangori'n annibynnol yn nyfroedd harbwr trwy ganiatad yr Harbwr Feistr ymlaen llaw.*
- 7. Bydd yr Awdurdod yr Harbwr yn caniatáu cwch sydd wedi'i thynnu i'r harbwr gyda cherbyd preifat neu ei thynnu â llaw gael ei lansio o lithrfa ddynodedig. Rhaid i'r llong gael ei chofrestru'n briodol gyda Chyngor Gwynedd. Ar gyfer harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog dim ond yn ystod amseroedd llanw ffafriol ac uchderau llanw y caniateir lansio ac adfer cychod.*
- 8. Caniateir gweithgareddau hamdden fel hwylyfyrddio; hwylio dingi; caiacio; canwio; syrffio; padl-fyrddio (SUP) a rhwyfo gael ei ymarfer o fewn dyfroedd yr harbwr. Caniateir gweithgareddau hyfforddi a sesiynau hyfforddi Chwaraeon Dŵr Masnachol ar yr amod bod caniatâd yr Awdurdod Harbwr wedi'i roi a bod gweithredwyr masnachol yn sicrhau cydymffurfiaid â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a'u gofynion Corff Llywodraethol priodol.*

RHYBUDD I FORWYR LLEOL

06-07-2020

Rheoli COVID-19 (parhad)

9. *Cynghorir morwyr y dylid ymgymryd â'r holl weithgareddau o fewn lefel cymhwysedd personol yr unigolyn ac na ddylid ymgymryd â'r gweithgaredd os oes unrhyw risg byddai angen cymorth gan y gwasanaethau brys.*
10. *Mae cyfleusterau ar y lan megis toiledau a chawodydd yn parhau i fod yn gyfyngedig. Dylai defnyddwyr yr harbwr fod yn ymwybodol o gyfyngiad cyfleusterau ar y lan a dylent sicrhau cydymffurfriad â gofynion pellter cymdeithasol wrth fynd i mewn i'r cyfleuster.*
11. *Mae'n ofynnol i bob ymwelydd â harbwr neu farina sicrhau cydymffurfriad â chanllawiau pellhau cymdeithasol a glanweithdra dwylo Llywodraeth Cymru.*
12. *Cynghorir llywyr pob llong i lywio yn ofalus ar y môr; yn sianel yr harbwr ac oddi fewn dyfroedd bob harbwr. Mae'r gofyn hwn oherwydd symudiadau sydyn a heb eu canfod yn y sianel fordwyo.*

Cyhoeddwyd y Rhybudd i Forwyr hwn er mwyn diogelwch a lles trigolion lleol, diogelwch a lles staff a defnyddwyr harbwr; er lleihau'r gofyn am gymorth gan y gwasanaethau brys fel yr RNLI a gwirfoddolwyr Gwylwyr y Glannau; i leihau lledaeniad firws Covid-19 yn ein cymuned ac i achub bywydau.

Bydd yr Awdurdod Harbwr yn ymgymryd a gwaith cynllunio pellach i sicrhau bod ei swyddogaethau a'i drefniadau rheoli harbwr yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Reoliadau Covid-19 perthnasol ac yn unol â'r gofyni gydymffurfio a Cod Diogelwch Morol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Forwrol neu eich Harbwr Feistr lleol.

Bydd y Rhybudd i Forwyr hwn yn cael ei ddiweddarau ymhellach wrth i Ganllawiau Llywodraeth Cymru gael eu diwygio.

Barry Davies

Swyddog Morwrol
Cyngor Gwynedd
Pwllheli
LL53 5AA

01758 704066

07831 212264